# Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru- Cofnodion
## Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023 11:00-12:30 MS Teams

**At y rheini a oedd yn bresennol**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Jane Mudd (Casnewydd)
Y Cyng. Ian Roberts (Sir y Fflint)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn, (Gwynedd)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Paul Griffiths (Mynwy)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol** Cymru

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Prif Swyddog Cyllid, Torfaen
Leah Witty – CLlLC
Tom Goodwin - CLlLC

**Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru**

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Emma Watkins – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Clare Blake – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Ben Crudge – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Jo Banks – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Matt Wellington – y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Hannah Chivers – Trethi Amgylcheddol a Threthi Ymddygiadol
Paula James – Ymgysylltu Strategol Llywodraeth Leol
Emma Smith – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Tim Evans – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Freya Gregory – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Llinos Medi (Ynys Môn)

**Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau**

1. Agorodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) y cyfarfod, gan ddiolch i'r aelodau am fod yn bresennol. Roedd y Gweinidog yn disgwyl mai ffocws y cyfarfod hwn fyddai'r gyllideb derfynol, a setliad terfynol llywodraeth leol, a gyhoeddwyd y prynhawn blaenorol, yn ogystal â'r cyd-destun ariannol ehangach.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

2. Cafodd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf eu cylchredeg ac fe gytunwyd arnynt.

3. Nid oedd unrhyw sylwadau na phwyntiau ar gywirdeb.

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

4. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad byr ar setliad Terfynol Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror. Croesawodd yr adborth cadarnhaol a ddaeth i law ar y setliad dros dro a'r rhagolygon ar gyfer 2024-25 yn ogystal â chydnabod yr heriau a oedd yn bodoli, Serch hynny, am y ddwy flynedd nesaf. Nododd nad oedd fawr o newid ers y setliad dros dro, yn bennaf trosglwyddo i mewn cyllid SCAPE Pensiynau Tân o £6m.

5. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar y cynnydd parhaus ar ein gwaith diwygio trethi lleol. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos yn ceisio barn am ddiwygio trethi annomestig yng Nghymru rhwng 21 Medi a 14 Rhagfyr, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 9 Chwefror. Roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu ystod eang o newidiadau arfaethedig i'r system ardrethi annomestig, gan geisio barn ar ailbrisiadau amlach, y potensial i amrywio'r lluosydd, llifoedd gwybodaeth gwell, adolygu'r pecyn presennol o ryddhad ac eithriadau, a mynd i'r afael â materion twyll ac osgoi talu.

6. Yn y tymor hwy, mae angen ystyried dulliau amgen o drethu lleol. Gofynnodd yr ymgynghoriad am barn ar y posibilrwydd o gyflwyno treth gwerth tir leol; defnyddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu cynigion, megis cyflwyno ailbrisiadau cyfraddau annomestig tair blynedd a'r mesurau y mae eu hangen i'w cefnogi.

7. Soniodd y Gweinidog hefyd fod crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Cam 1 ar Dreth Gyngor Decach wedi'i gyhoeddi ar 16 Rhagfyr, ac y bydd Llywodraeth Cymru nawr yn symud ymlaen at Gam 2 o'r ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2023, a fydd yn darparu cynlluniau manylach.

8. Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am yr holl gyfraniadau gan nodi mantais cydweithio agos gyda'r wybodaeth a'r arbenigedd mewn llywodraeth leol.

9. Diolchodd y Gweinidog i'r Awdurdodau Lleol am eu hymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr a ddaeth i ben fis Rhagfyr diwethaf. Cafodd yr ymgynghoriad lefel uchel o ymgysylltu a thros 1000 o ymatebion i gyd gydag ystod eang o safbwyntiau. Bydd yr ymatebion yn llywio dyluniad ardoll ddewisol er mwyn iddi weithio'n dda ar gyfer ardaloedd lle mae'r Awdurdodau Lleol yn dewis ei fabwysiadu.

10. Bydd y camau nesaf yn cynnwys ymarfer costau cychwynnol a gefnogir gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i helpu i nodi'r costau gweinyddol posibl ar gyfer cyflwyno ardoll. Bydd arnynt angen cefnogaeth gan swyddogion yr Awdurdodau Lleol i helpu i ymgymryd â'r gwaith hwn gan ystyried yr ystod o opsiynau cyflenwi posibl.

11. Dilynir y gwaith cychwynnol hwn gan weithgarwch darganfod manylach yn ystod 2023-24. Bydd hyn yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn galluogi ystyriaeth bellach o'r gofynion gweithredol ymhellach ar gyfer rhoi ardoll ar waith. Bydd y gweinidog yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r is-grŵp cyllid wrth i'r gwaith ar yr ardoll fynd yn ei flaen.

12. Mewn ymateb, adleisiodd y Cynghorydd Anthony Hunt werthfawrogiad y Gweinidog o ysbryd partneriaeth a fydd yn parhau. Cododd y Cynghorydd Mark Pritchard lefel ardoll y Gwasanaeth Tân ac Achub o 9.4% a'r defnydd o ardoll yn hytrach na phraesept. Cydnabu'r Gweinidog y pryderon ond nododd fod trefniadau ariannu yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol. Gallai fod pryderon pe bai corff heb ei ethol yn gallu gosod treth.

**Eitem 4: Lleihau'r baich dilysiad ar yr awdurdodau lleol**

13. Esboniodd y Gweinidog fod y Gweinidogion wedi ymrwymo, fel rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, i leihau'r baich gweinyddol ar yr awdurdodau lleol Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgysylltu a oedd wedi digwydd gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i nodi materion a chyfleoedd i newid. Roedd cyfanswm o 14 o awdurdodau wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a gweithdai. Er bod y negeseuon allweddol o'r trafodaethau hyn wedi'u nodi yn y papur, pwysleisiodd y Gweinidog fod adborth yn ymwneud yn bennaf at ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ariannu'r awdurdodau lleol yn enwedig o safbwynt rheoli a gweinyddu grantiau. Roedd hyn yn adleisio trafodaethau blaenorol o fewn yr Is-grŵp Cyllid.

14. Nododd y gweinidog fod y papur yn nodi'r camau nesaf ar gyfer yr eitem hon a'i fod yn gofyn am unrhyw sylwadau neu gwestiynau. Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau.

**Cam Gweithredu – Swyddogion i gyflwyno diweddariad manylach ar leihau'r baich gweinyddu yn yr Is-grŵp Cyllid yn y dyfodol.**

**Eitem 5: <u>Setliad Terfynol Llywodraeth Leol (papur CLILC ar bwysau)</u>**

15. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd fawr o wahaniaeth rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol gyda'r newidiadau wedi'u cyfyngu i frigdorri is ar gyfer cyrff penodedig a throsglwyddo i mewn pensiwn SCAPE yr Awdurdod Tân ac Achub. Yn 2023-24 bydd yr awdurdodau lleol yn cael setliad o £5.5 biliwn, cynnydd ar draws Cymru o 7.9% ar gyfartaledd. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau am y setliad.

16. Tynnodd y Cynghorydd Anthony Hunt sylw at y pwysau parhaus o ran chwyddiant a'r gyllideb. Roedd yn gwerthfawrogi'r setliad gwell na'r disgwyl ar gyfer 2023-24 ond nododd y bwlch ariannu dangosol ar gyfer 2024-25. Ar gyfer 2023-24 rhagwelwyd y byddai'r dreth gyngor yn cynyddu 5.6% ar gyfartaledd. Nododd fod llywodraeth leol yn bryderus yn benodol am effaith codiadau cyflog. Roedd cytundeb tâl llywodraeth leol ar gyfer 2022-2023 wedi ychwanegu 6% at 7% at y bil cyflogau. Byddai'r cynnig presennol yn ychwanegu pwysau tebyg. Dywedodd Anthony Hunt fod anawsterau wedi'u gwneud yn fwy hylaw gan ddealltwriaeth gyffredin o'r pwysau hyn a'u bod yn gobeithio y byddai'r dull partneriaeth hwn yn parhau.

17. Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Morgan a ddisgwylid i ddatganiad gwanwyn y DU ar 15 Mawrth gyhoeddi cyllid canlyniadol i Gymru. Byddai'r cynnydd dangosol yn setliad llywodraeth leol ar gyfer 2024-2025, sef 3.5%, yn heriol iawn yng ngoleuni'r pwysau parhaus ar dâl yn yr awdurdodau lleol dros y 12 mis nesaf. Nododd fod pwysau parhaus ar wasanaethau bysiau a gofal cymdeithasol yn arbennig. Cadarnhaodd y gallai llywodraeth leol ddangos tystiolaeth bod cyllid ychwanegol ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gyfeirio at ysgolion ac addysg ac roedd yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach ar gostau unrhyw gynnig tâl pellach i athrawon.

18. Esboniodd y Gweinidog fod gan y Canghellor fwy o arian na'r disgwyl oherwydd ffurflenni treth hwyr ond deellir ei fod yn gofyn i adrannau llywodraeth y DU geisio arbedion pellach. Mae hyn yn awgrymu bod unrhyw symiau canlyniadol sylweddol arfaethedig yn amheus. Roedd hi'n ddiolchgar am y gwaith i ddangos tystiolaeth o'r cyllid a oedd yn cyrraedd ysgolion a oedd o gymorth mewn trafodaethau parhaus ar dâl athrawon.

**Eitem 6: Blaengynllun gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG)**

19. Trosglwyddodd y Gweinidog yr awenau i Judith Cole i gyflwyno papur yn amlinellu'r blaengynllun gwaith.

20. Crynhodd Judith Cole yr eitemau allweddol o waith a nodwyd yn y rhaglen ac esboniodd fod y cynllun yn rhoi mwy o fanylion am yr amserlenni sylfaenol ar

gyfer allbynnau'r cyfrifiad yn unol â cheisiadau blaenorol yr aelodau. Esboniodd Judith fod y rhaglen yn cynnwys gwaith sy'n dechrau ar y data teneurwydd poblogaeth a oedd wedi dyddio ond nad prosiect bach oedd hwn ac y byddai'n cymryd peth amser. Byddai disgwyl i ganlyniad y gwaith ar ddiwygio cyllid llywodraeth leol ddod i rym yn setliad 2025-26. Byddai cynnydd ar waith yr Is-grŵp Dosbarthu a phenderfyniadau ar newidiadau i'r fformiwla yn cael eu dwyn i'r Is-grŵp Cyllid yn ôl yr arfer.

21. Dywedodd y Gweinidog nad yw faint o waith y mae'r Is-grŵp Dosbarthu bob amser yn cael ei werthfawrogi ac awgrymodd fod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sut y gellir lledaenu gwybodaeth am waith y grŵp a'i wneud yn fwy tryloyw. Roedd cyfarfod briffio wedi'i gynnal ag aelodau'r Senedd.

22. Ychwanegodd y Cynghorydd Paul Griffiths ei fod yn teimlo bod diffyg gwerthfawrogiad ymhlith Cynghorwyr o sut y mae'r fformiwla yn gweithio. Po fwyaf o addysg am y fformiwla y bydd yr awdurdodau lleol yn ei chael, a hynny mewn ffordd glir a chryno, gan gynnwys sut y mae'n newid dros amser, mwyaf adeiladol yn y byd fydd y dadleuon yn y meysydd hyn. Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts ei fod yn croesawu mwy o ymgysylltu fel hyn fel nad yw pobl yn edrych ar symiau'r setliad fel tabl "cynghrair". Cytunodd y byddai briffio pellach yn ddefnyddiol yn nadleuon cynghorau lleol, yn enwedig gyda grwpiau'r gwrthbleidiau. Awgrymodd Judith Cole fod yr Is-grŵp Dosbarthu yn ymgysylltu â Chymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT) yn fwy. Dywedodd Anthony Hunt y byddai'n ystyried sut y gall Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddatblygu dealltwriaeth ymhlith aelodau etholedig lleol.

    **Cam Gweithredu – Swyddogion LIC a CLILC i barhau i wella tryloywder a chyfathrebu ynghylch gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu a'r fformiwla.**

**Eitem 7: Diweddariad gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

23. Trosglwyddodd y Gweinidog yr awenau i Peter Curran i fynd â'r grŵp drwy'r diweddariad diweddaraf gan y comisiynwyr heddlu a throseddu.

24. Nododd Peter Curran ddiffyg o tua £25m. Dywedodd Peter Curran fod Cymru o dan anfantais o ran y sylfaen drethu sy'n uwch yn Lloegr ac ni wnaeth setliad y Swyddfa Gartref gymryd chwyddiant i ystyriaeth. Mae heddluoedd Cymru yn recriwtio rhagor o swyddogion i gyrraedd targedau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac felly nid yw lleihau nifer y swyddogion yn opsiwn y flwyddyn nesaf. Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cyfrifo bod Caerdydd fel prifddinas yn £4m ar ei cholled o'i chymharu â phrifddinasoedd eraill y DU. Bu rhywfaint o gynnydd o ran cydnabod effaith yr ymagwedd at ariannu prentisiaethau.

25. Dywedodd Peter Curran fod ymgynghoriad ar yr adolygiad o fformiwla'r heddlu ar fin dechrau. Gan fod heddluoedd Cymru o'r farn bod Cymru o dan anfantais

oherwydd y fformiwla bresennol roedd yn gobeithio y byddent yn elwa ar unrhyw newid. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o gefnogi adolygiadau drwy ddarparu data os byddai hynny'n ddefnyddiol. Gofynnodd pam yr oedd cymaint o ostyngiad mewn cyllid cyfalaf.

26. Diolchodd Peter Curran i'r Gweinidog am y cynnig o gymorth ac esboniodd fod cronfeydd refeniw yn hytrach na chyfalaf yn cael eu dyrannu i roi mwy o hyblygrwydd i heddluoedd ond nid oeddent wedi codi'n ddigonol i fodloni pwysau refeniw ac anghenion cyfalaf, yn enwedig ar gyfer prosiectau megis hofrenyddion newydd. Nododd y Gweinidog y bydd cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru 8.1% yn is y flwyddyn nesaf felly roedd heriau ar draws y sectorau.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

27. Nid oedd unrhyw fater arall.